

# Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i bwysau costau byw

## Papur briffio

Mawrth 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**

**Tŷ Hywel**

**Bae Caerdydd**

**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6307**

E-bost: **[GarethDavid.Thomas@senedd.cymru](mailto:GarethDavid.Thomas@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](#)**

Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Tanysgrifiwch: **[Diweddfriadau mewn amser real](#) | [Diweddfriadau wythnosol a misol](#)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i bwysau costau byw

## Papur briffio

Mawrth 2022

**Awdur:** Gareth David Thomas, Božo Lugonja, Chloe Corbyn, Andrew Minnis,  
Jonathan Baxter, Philippa Watkins and Elfyn Henderson



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Prisiau ynni a chostau tanwydd.....</b>	<b>1</b>
Prisiau ynni.....	1
Costau tanwydd .....	2
<b>3. Effeithiau economaidd .....</b>	<b>3</b>
Effeithiau ar fusnesau .....	3
Effeithiau ar gyflogau a'r gweithlu.....	4
<b>4. Cydraddoldeb, tlodi a dyled.....</b>	<b>5</b>
Effeithiau ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth.....	5
Dyled.....	6
<b>5. Plant a phobl ifanc .....</b>	<b>7</b>
Effaith costau byw ar y plant tlotaf.....	7
Prydau ysgol am ddim.....	8
<b>6. Tai.....</b>	<b>8</b>
<b>7. Iechyd meddwl.....</b>	<b>10</b>
<b>8. Bwyd .....</b>	<b>11</b>

## 1. Cyflwyniad

Ar 31 Mawrth, bydd **Pwyllgor Craffu'r Senedd ar Waith y Prif Weinidog** yn craffu ar ymateb y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, i bwysau costau byw. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r materion allweddol y mae'n bosibl y byddan nhw'n cael eu trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 2. Prisiau ynni a chostau tanwydd

### Prisiau ynni

Ym mis Chwefror, fe wnaeth y rheolydd ynni Ofgem, **gyhoeddi** y byddai'r 'cap ar brisiau' ynni yn cynyddu 54% o 1 Ebrill ymlaen. Ar ddefnydd arferol, y disgwyl yw y bydd biliau'n cynyddu o £1,277 y flwyddyn i £1,971 y flwyddyn ar gyfer y rheini sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol – gan ychwanegu tua £693 y flwyddyn at fil cyfartalog yr aelwyd. **Bydd yr effaith ar aelwydydd Cymru yn amrywio**, gyda Cheredigion yn debygol o brofi'r cynnydd mwyaf, a Chaerdydd y cynnydd lleiaf. Disgwylir i'r cap ar brisiau gael ei adolygu eto ym mis Hydref 2022.

Yn dilyn y cyhoeddiad, amlinellodd Llywodraeth y DU **Ad-daliad Biliau Ynni** o £200, gyda'r nod o liniaru cynnydd mewn prisiau. Bydd cyflenwyr ynni yn cymhwys o hyn i filiau trydan cwsmeriaid domestig o fis Hydref ymlaen, a bydd yr ad-daliad yn cael ei adennill yn awtomatig mewn pum rhandaliad o £40 o 2023 ymlaen. Mynegwyd pryder gan **National Energy Action** a **Chyngor ar Bopeth Cymru** na fyddai'r cymorth hwn yn ddigonol i aelwydydd sydd ar incwm isel. s

Ar 23 Mawrth, fe wnaeth Canghellor y Trysorlys **gyhoeddi** y byddai TAW ar gyfer aelwydydd sy'n gosod paneli solar neu bympiau gwres, neu'n inswleiddio, yn cael ei dorri o 5% i sero am bum mlynedd. At hynny, cyhoeddodd y byddai'r cyllid ar gyfer y Gronfa Gymorth i Aelwydydd yn Lloegr yn dyblu. Mae Llywodraeth y DU **yn datgan** y bydd swm canlyniadol i Gymru o dan fformiwla Barnett, yn sgil y mesur hwn.

At hynny, fe wnaeth Llywodraeth y DU **gyhoeddi** y byddai'r trothwy Yswiriant Gwladol yn codi i £12,570 o fis Gorffennaf 2022 ymlaen, a nododd ei bwriad i dorri cyfradd sylfaenol treth incwm o 20c i 19c ym mis Ebrill 2024.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi **amlinellu** cymorth i aelwydydd, gan gynnwys:

- Cynyddu taliad y **Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf** i £200, gan **ehangu'r**

**meini prawf cymhwysedd**, a chyflwyno taliad pellach o £200 i'w wneud yn ddiweddarach eleni;

- Darparu **ad-daliad treth gyngor** o £150 iaelwydydd sy'n byw mewn cartrefi ym mandiau treth gyngor A-D, a phob aelwyd sy'n cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor; a
- Darparu rhagor o gymorth drwy ddyraniadau i **Cyllideb Derfynol 2022-23**.

Yn ôl **data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol**, o fis Mawrth 2021 ymlaen, mae costau ynni blynnyddol ar eu huchaf mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae **Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18** Llywodraeth Cymru'n dangos bod 28% o anheddua gwledig yn defnyddio olew, sy'n llawer uwch na'r gyfran gyffredinol ar gyfer Cymru (10%).

Mae adroddiadau yn y cyfryngau yn tynnu sylw at y **cynyddu cyflym mewn prisiau olew gwresogi (BBC Cymru)**, a **bu Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyflawned Cymdeithasol yn holi'r Gweinidog Cyflawned Cymdeithasol yn ddiweddar** ar y mater hwn, gan gynnwys dystiolaeth anecdotaidd bod bobl mewn ardaloedd gwledig yn gorfol archebu olew heb wybod y manylion, oherwydd nad yw cyflenwyr yn gallu rhoi pris iddyn nhw ar adeg archebu. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor fod tlodi tanwydd mewn cartrefi gwledig yn cael sylw manwl. Ychwanegodd ei swyddog fod gan y Rhaglen Cartrefi Clyd gapiau ariannol uwch ar gyfer ôl-osod tai mewn ardaloedd gwledig sydd oddi ar y grid – y gwahaniaeth rhwng uchafswm grant o £5,000 neu £8,000 i £12,000. Fodd bynnag, nododd y swyddog hefyd nad yw eiddo hŷn mewn ardaloedd gwledig yn addas ar gyfer rhai o'r technegau ôl-osod a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer i drosglwyddo pobl i systemau gwresogi carbon isel.

## Costau tanwydd

Mae costau ynni yn ffactor allweddol sy'n arwain at gostau trafnidiaeth cynyddol. Mae sefydliad yr RAC yn adrodd ynghylch **prisiau dyddiol wrth y pwmp yn y DU**. Ar 22 Mawrth mae prisiau petrol a disel yn £1.67 y litr am betrol, a £1.79 am ddiisel. Mae'r sefydliad yn **dilyn hynt newidiadau mewn prisiau wrth y pwmp ar wahân, dros amser** sy'n dangos y modd y mae prisiau wedi cynyddu'n sylweddol o'r isafbwyt ym mis Mai 2020. Fodd bynnag, mae **ystod o ffactorau** cyfrannu at y cynnydd, gyda'r rhyfel yn Wcráin yn fater allweddol. Yn Natganiad y Gwanwyn ar 23 Mawrth, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys **doriad dros dro i dreth tanwydd** ar betrol a disel o 5c am 12 mis.

**Mae Sefydliad yr RAC wedi amlinellu** mynegai o gostau teithio (moduro, trenau, bysiau a choetsis), ynghyd â chyflogau a chostau byw, dros y deng mlynedd diwethaf gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn dangos

y modd, yn hanesyddol, y mae costau trafnidiaeth gyhoeddus y DU wedi codi'n gynt na chostau moduro, a bod **prisiau tocynnau bws yn arbennig wedi codi'n gyflymach na chostau byw a chyflogau**. Er bod amrywiaeth o ffactorau'n effeithio ar deithio ar fysiau - gan gynnwys effaith tagfeydd traffig cynyddol - bydd costau ynni yn parhau i roi pwysau cynyddol ar docynnau bws. Ar gyfer y rheilffyrdd, mae capiau ar gynnydd mewn prisiau ar gyfer prisiau tocynnau a reoleiddir (er enghraifft, prisiau teithio i gymudwyr) yn cael eu pennu gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr. Ym mis Chwefor gosodwyd hyn **ar 3.8% ar draws Prydain Fawr**. Mae'r prisiau sy'n weddill heb eu rheoleiddio yn cael eu pennu yn ôl disgrifiwn y gweithredwr.

**Bydd effaith cynydd mewn prisiau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei theimlo'n arbennig ganaelwydydd sydd ar incwm is**, sy'n tueddu i fod yn rhai heb fynediad i gar. **Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn nodi** nad oes gan 13% o gartrefi Cymru fynediad at gar, tra chanfu **ymchwil gan Trafnidiaeth Cymru yn 2019** bod 25% o ddefnyddwyr bysiau yn anabl neu'n dioddef o salwch hirdymor.

At hynny, mae'r **Cymdeithas Cludiant Ffyrdd** wedi tynnu sylw yn ddiweddar at effaith y rhyfel yn Wcráin ar gludo a chadwyni cyflenwi, gan ei disgrifio fel bod yn ddinistriol.

### 3. Effeithiau economaidd

#### Effeithiau ar fusnesau

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effeithiau chwyddiant yn y **nodyn esboniadol** i'w Chyllideb Derfynol 2022-23 - a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn - yn datgan fel a ganlyn:

1. *Wrth gwrs, bydd prisiau uwch am ynni a mewnbynnau eraill hefyd yn cynyddu costau busnes. Er y gall busnes unigol adrodd ei fod yn teimlo dan anfantais oherwydd cynydd o'r fath, mae'r anfantais yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd bydd cystadleuwyd y busnes yn agored i'r un cynydd mewn costau. O dan yr amgylchiadau hyn, mae theori economaidd yn dangos y bydd y costau uwch yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr yn gyffredinol, gan ychwanegu ymhellach at effeithiau uniongyrchol cynydd mewn prisiau ynni ar safonau byw.*
2. *Fodd bynnag, gallai chwyddiant prisiau ynni gael effaith andwyol sylweddol ar ddiwydiannau ynni ddwys, gan gynnwys dur, sydd, wrth gwrs, â phresenoldeb mawr yng Nghymru.*

**Fe wnaeth sectorau fel twristiaeth a lletygarwch - sydd wedi cael eu taro'n galed gan y pandemig - sôn wrth Bwylgor yr Economi, Masnach a Materion**

**Gwledig** yn gynharach y mis hwn am y modd y mae materion ynghylch costau byw wedi effeithio ar fusnesau yn eu sectorau. Yn ôl Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru:

*3. The cost-of-living issue, of course, we're talking about that from the perspective of businesses, but we've got to remember that those cost-of-living pressures are affecting customers as well, and it's Welsh Government's own research that's shown that it's the family budget that primarily dictates if the family goes on holiday at all, or, if they do, what kind of holiday they're going to go on. So, the industry in the round has been affected by the cost-of-living crisis, both in terms of supply and in terms of demand.*

## Effeithiau ar gyflogau a'r gweithlu

Mae cyflogau gwirioneddol yn disgyn oherwydd cynydd mewn chwyddiant, ac mae Banc Lloegr yn disgwyl iddynt barhau i ddisgyn drwy gydol 2022 cyn i'r darlun ddechrau gwella y flwyddyn nesaf. Mae'r Resolution Foundation yn tynnu sylw at y ffaith mai hon fyddai'r **drydedd wasgfa ar gyflogau gwirioneddol mewn degawd**.

Fe wnaeth busnesau'r sector twristiaeth, manwerthu a lletygarwch **ddweud wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** bod cyflogau wedi cynyddu'n sylweddol yn eu sectorau gyda newidiadau ehangach i arferion gwaith hefyd yn digwydd, ac mai marchnad y gweithwyr yw hi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedodd undebau llafur **wrth y Pwyllgor** bod cyflogau isel, gwaith ansicr a thelerau ac amodau gwael yn parhau i fod yn broblem aruthrol i lawer o weithwyr yn y sectorau hyn. Dywedon nhw y gallai pwysau costau byw arwain at weithwyr mewn sectorau cyflog isel yn gweithio oriau peryglus o hir er mwyn cynyddu eu cyflog clir. neu'r angen i weithio swyddi lluosog.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amlygu'r ffaith bod cyflog wythnosol cyfartalog y DU ym mis Tachwedd 2021-Ionawr 2022 **1% yn is mewn termau real nag oedd ym mis Tachwedd 2020-Ionawr 2021**. At hynny, mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos - dros y flwyddyn hyd at Ionawr 2022 - bod **y rheini ar y 10% uchaf o gyflogau wedi cael codiadau cyflog blynnyddol cyn chwyddiant o 5% o leiaf o gymharu ag 1% ar gyfer y rheini ar gyflogau isel** (10fed canradd yr enillwyr, sy'n ennill mwy na 10% o weithwyr ond llai na 90%).

Ym mis Ebrill 2022, bydd y **Cyflog Byw Cenedlaethol** (lleiafswm cyflog cyfreithiol y DU ar gyfer gweithwyr 23 oed a hŷn) yn cynyddu i £9.50 yr awr, sef cynydd o 6.6%. At hynny, bydd cynydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 22 oed ac iau.

Fe wnaeth pôl piniwn gan y Sefydliad Cyflog Byw **ganfod** y canlynol:

- Roedd 46% o weithwyr yng Nghymru sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi bod ar ei hôl hi gyda biliau'r cartref dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd 37% o weithwyr Cymru sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn methu â chadw eu cartrefi'n gynnes dros y gaeaf.

## 4. Cydraddoldeb, tlodi a dyled

### Effeithiau ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth

Mae amcangyfrifon gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol **yn dangos mai'r aelwydydd tlotaf yng Nghymru sy'n debygol o gael eu taro waethaf. Mae'r aelwydydd hyn yn gwario dros chwarter eu hincwm ar ynni a bwyd, mwy na dwywaith cymaint â'r aelwydydd cyfoethocaf.** Bydd aelwydydd sy'n cael budd-daliadau hefyd **yn cael codiad** sy'n llai na'r swm y byddai ei angen arnynt i dalu'r prisiau cynyddol.

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddadansoddiad dosbarthiadol** o'r gefnogaeth y mae wedi'i darparu, sy'n awgrymu y **bydd yr 20% tlotaf o aelwydydd yn cael bron deirgwaith cymaint o gymorth na'r 20% cyfoethocaf.** Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod taliadau'r **Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf** a'r **Gronfa Cymorth Dewisol** yn gwneud y pecyn yn fwy blaengar na'r ad-daliad treth gyngor.

Mae Sefydliad Bevan wedi **croesawu'r** cymorth gyda chostau byw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae **hefyd wedi amlygu y gallai fod yn ofynnol i aelwydydd incwm isel gyflwyno ceisiadau lluosog ar gyfer gwahanol fesurau cymorth y maent yn gymwys ar eu cyfer.** Mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar system fudd-daliadau i Gymru, lle gallai pobl wneud cais am yr holl gymorth y maent yn gymwys i'w gael yn haws, ond yr hoffent weld y gwaith hwn yn mynd rhagddo'n gyflymach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r grwpiau y mae'n disgwyl y bydd pwysau costau byw yn effeithio arnynt fwyaf, gan ddatgan:

*4. Bydd costau byw cynyddol yn effeithio'n anghymesur ar bobl anabl gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith ac o gael incwm isel. Mae plant o leiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol ac felly mae costau byw cynyddol yn debygol o effeithio arnynt - er bod gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol leiafrifoedd ethnig.*

Mae'r Sefydliad Cyflog Byw **canfod bod menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan gyflog isel a phwysau costau byw**. Fe wnaeth amlinellu'r canlynol yn gynharach y mis hwn:

- Roedd 42% o fenywod yn y DU sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi bod ar ei hôl hi o ran biliau'r cartref, o gymharu â 35% o ddynion.
- Roedd 35% o fenywod yn y DU sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi hepgor prydau bwyd yn rheolaidd am resymau ariannol, o gymharu â 29% o ddynion.

## Dyled

Mae Sefydliad Bevan yn **tynnu sylw at y ffaith** bod **chwarter o deuluoedd Cymru wedi benthyg arian** rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2021, **a bod 12% o leiaf fis yn hwyr yn talu bil cartref**.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyflawnder Cymdeithasol ei adroddiad ar **dyled a'r pandemig** ym mis Tachwedd 2021. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth **bod y pandemig wedi gwaethygu'r risg o ddyled broblemus i'r rheini sydd eisoes yn debygol o fod â phroblemau'n ymwneud â dyled**. Gwnaeth argymhellion yngylch hyrwyddo gwasanaethau cyngor ar ddyledion, credyd fforddiadwy, ac yngylch mynd i'r afael â thlodi tanwydd a achosir gan godiadau mewn prisiau ynni.

Yn ôl dadansoddiad **diweddar gan Cyngor ar Bopeth Cymru, mae'r galw am gyngor ar ddyledion bellach yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig**, gyda ffigurau ar gyfer mis Tachwedd 2021 yn dangos cynnydd o 17% mewn cleientiaid dyled o gymharu â mis Tachwedd 2019. Ym mis Ionawr 2022, fe wnaethant **gyhoeddi dadansoddiad** oedd yn nodi, yn ystod y tri mis diwethaf bod **mae staff rheng flaen Cyngor ar Bopeth wedi helpu un person bob 40 eiliad gyda phroblem yn ymwneud â dyled tanwydd**. Mae hyn 40% yn fwy nag o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020.

Daeth **StepChange, Cyngor ar Bopeth Cymru** a **Sefydliad Bevan** i gyd i'r casgliad bod **rhai grwpiau yn fwy tebygol o fynd i ddyled broblemus nag eraill**. Mae'r grwpiau hynny'n cynnwys teuluoedd ar incwm isel; rhieni sengl; teuluoedd â phlant ifanc; pobl sy'n rhentu; pobl o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig; a phobl ag anableddau.

## 5. Plant a phobl ifanc

### Effaith costau byw ar y plant tlotaf

Mae gan Gymru y **cyfraddau tlodi plant** uchaf o blith holl genhedloedd y DU, gyda **31% o blant yn byw o dan y llinell tlodi fel y'i diffinnir**. Cynyddodd cyfraddau tlodi plant mewn 20 o 22 awdurdod lleol Cymru dros bum mlynedd rhwng 2014-15 a 2019-20. Mae grwpiau ymgyrchu'n dadlau, o ganlyniad i gyflog isel a 'rhewi' budd-daliadau, **roedd 75% o'r plant sy'n byw mewn tlodi mewn aelwydydd gydag o leiaf un oedolyn sy'n gweithio**.

Mae'r **New Economics Foundation** wedi amcangyfrif y bydd cynnydd mewn costau byw a chwyddiant yn **gwthio mwy o blant i tlodi**. Mae'n nodi y bydd gan fwy o bobl incwm is na'r **Safon Isafswm Incwm**, sef y swm sydd ei angen ar gyfer yr isafswm safon byw sy'n dderbynol yn y DU.

Mae'r **Grŵp Gweithredu Tlodi Plant** wedi dogfennu **effeithiau andwyol tlodi ar addysg, iechyd a datblygiad plant sy'n byw mewn tlodi**. Lansiodd Llywodraeth Cymru **Strategaeth Tlodi Plant Cymru** yn 2015. Yn 2020, lansiwyd **Tlodi Plant: Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm** am un flwyddyn, er mwyn ailgyfeirio cyllid presennol tuag at liniaru tlodi plant.

Amlygodd adroddiad terfynol Tlodi Plant: Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm y cynnydd a wnaed ar draws **pedwar amcan allweddol**. Y nod cyffredino, yw helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru i wneud o gorau o'u hincwm a rhoi cymorth iddynt feithrin cadernid ariannol. Mae'r Gweinidog Cyflawnder Cymdeithasol **wedi ymrwymo i adnewyddu'r Strategaeth Tlodi Plant** er mwyn "adlewyrchu'n well y problemau y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r opsiynau sydd ar gael inni".

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi cynnydd o un flwyddyn yng nghynllun y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad (14 Mawrth 2022)** o £100 fesul dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn ystod dadl ar yr **argyfwng costau byw a'r effaith ar ysgolion a phlant** ar 16 Mawrth 2022, amlygodd Sioned Williams AS **ymchwil gan y grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant**, sy'n amcangyfrif nad yw 55,000 o blant mewn tlodi yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu, wedi hynny, y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, yn bennaf oherwydd bod rhieni neu ofalwyr mewn gwaith cyflog isel.

Fel rhan o'r **Cytundeb Cydweithio** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, gwnaed ymrwymiad i **ehangu gofal plant i bob plentyn 2 oed yng Nghymru**. Fe

wnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi** y byddai cam cyntaf ehangu gofal plant yn dechrau ym mis Medi 2022, gyda phob plentyn rhwng 2 a 3 oed yn cael 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, unwaith y bydd y broses o ehangu wedi'i chyflwyno'n llawn drwy Dechrau'n Deg. At hynny, bydd rhaglen Dechrau'n Deg yn ei chyfarwydd yn cael ei hymestyn, drwy gynyddu'r ardaloedd targed lle mae'r cynllun ar waith.

## Prydau ysgol am ddim

Yn ôl **Sefydliad Bevan**, ynghyd â chynnydd mewn costau bwyd o 4.5% o 2021-2022, **mae chwarter yr aelwydydd hefyd wedi adrodd eu bod wedi torri'n ôl ar fwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2021; gydag un o bob deg aelwyd gyda dau o blant, yn torri'n ôl ar fwyd plant.**

Mae'r **Cytundeb Cydweithio** yn cynnwys ymrwymiad i **ymestyn yr hawl i ginio ysgol am ddim** i bob plentyn ysgol gynradd, gyda £200 miliwn wedi'i ymrwymo tuag at y nod hwn fel rhan o'r **gylliceb derfynol** dros y tair blynedd nesaf. Cafodd **£21.4 miliwn ychwanegol** ei gynnwys yn y gylliceb derfynol i ymestyn prydau ysgol am ddim drwy'r **Gwyliau'r Pasg tan ddiwedd gwyliau'r haf, eleni.**

Yn ôl **arolwg** gan y **Grŵp Gweithredu Tlodi Plant** a **Parentkind**, roedd teuluoedd yng Nghymru sy'n byw ar incwm is **bron ddwywaith yn fwy tebygol na'r sampl ehangach oedd yn rhan o'r adolygiad, o ddweud bod defnyddio clybiau brecwast wedi helpu i leihau costau byw.**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei **Menter Brecwast am Ddim** mewn ysgolion cynradd yn 2004. Fodd bynnag, fe wnaeth **1 ym mhob o 7 o rieni ysgol gynradd roj gwybod na allen nhw gael mynediad i glwb brecwast oherwydd diffyg o ran capaciti neu ddarpariaeth.**

## 6. Tai

I lawer o aelwydydd - yn enwedig y rheini sydd ar incwm isel - mae costau tai **yn debygol o fod** yn un o'u hymrwymiadau ariannol mwyaf.

Er bod gan denantiaid tai cymdeithasol rywfaint o amddiffyniad rhag costau cynyddol drwy **safon renti** Llywodraeth Cymru a chap **o 3.1%** ar gynnydd i'r rhan fwyaf o denantiaid yn 2022-23, gall landlordiaid yn y sector rhentu preifat osod rhenti'r farchnad. Er bod **data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos cynnydd blynnyddol cymharol fach mewn rhenti preifat, mae'r port oedd Zoopla, wedi dweud bod rhenti yng Nghymru wedi codi 9.8 y cant yn ystod y flwyddyn hyd**

## at fis Rhagfyr 2021.

Ar gyfer aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat, defnyddir cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol i gyfrifo faint o help y maent yn ei gael gyda'u rhent drwy'r system budd-daliadau. Mae Sefyddiad Bevan **yn amlygu** bod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu rhewi ar lefelau Mawrth 2020. Maen nhw'n dweud bod perygl i'r penderfyniad hwn beri caledi ariannol i rentwyr sydd ar incwm isel, ac y gallai osod aelwydydd mewn perygl o ddigartrefedd. At hynny, mae Sefyddiad Bevan **yn galw** ar Lywodraeth Cymru i ychwanegu at ddyraniadau awdurdodau lleol ar gyfer **Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai** (sy'n rhoi cymorth ychwanegol at ddibenion costau tai), ar gyfer ymestyn y **Grant Caledi Tenantiaeth** ac am fwy o help i'r rheini sy'n talu'r dreth gyngor drwy'r **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**.

Yn ei adroddiad diweddar, **The Benefits System in Wales**, cyfeiriodd y Pwyllgor Materion Cymreig at **dystiolaeth** gan Gymdeithas y Landlordiaid Preswyl sy'n cynrychioli landlordiaid preifat. Mae'n amlygu'r diffyg rhwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol a rhenti yn y sector rhentu preifat. Dywedodd y Pwyllgor fod angen adolygiad brys o'r penderfyniad i rewi cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar lefelau mis Mawrth 2020.

Mae'r **Cytundeb Cydweithio** yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi Papur Gwyn sy'n mynd i'r afael â nifer o faterion ynghylch tai, gan gynnwys "...y rôl y gallai system rhenti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol a dulliau newydd i wneud cartrefi'n fforddiadwy."

**Mae'r cynnig ar gyfer rheolaethau rhent wedi ennyn rhywfaint o wrthwynebiad gan landlordiaid.** Yn ei '**Bapur Gwyn Cysgodol diweddar i Gymru**', tynnodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl sylw at sylwadau a wnaed gan y **Resolution Foundation** yn 2019, sef "*holding down the true market price of private housing via enduring rent controls rather than increasing housing supply and reducing demand is unlikely to succeed.*"

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o **cartrefi cymdeithasol newydd i'w rhentu** erbyn diwedd tymor presennol y Senedd. Wrth roi **tystiolaeth** i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Ionawr 2022, disgrifiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y targed hwnnw fel un eithaf uchelgeisiol o ystyried problemau gyda'r **cadwyn gyflenwi, costau uwch ar gyfer deunyddiau a chost ac argaeledd llafur**. Cyn hynny, dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod bellach yn costio tua 30 y cant yn fwy i adeiladu pob cartref cymdeithasol.

**Nid rhentwyr yn unig y mae costau cnyddol wedi effeithio arnynt.** Yn y sector

perchen-feddanwyr, mae llawer o fenthycwyr wedi teimlo effaith **codi cyfraddau llog** deirgwaith mewn tri mis gan Fanc Lloegr. Mae pobl sy'n prynu cartref hefyd wedi wynebu'r **prisiau tai uchaf erioed**, i fyny 13.9% yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2022. Mae **data'r** Swyddfa Ystadegau Gwladol a ryddhawyd yr wythnos diwethaf yn dangos yng Nghymru yn 2021, y gallai gweithwyr amser llawn ddisgwyl gwario tua 6.4 gwaith eu henillion blynnyddol yn y gweithle ar brynu cartref. Mae **ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd i ail gartrefi** wedi clywed yn ddiweddar fod materion o ran fforddiadwyedd a chyflenwad yn arbennig o ddifrifol mewn llawer o ardaloedd gwledig ac arfordirol yng Nghymru.

## 7. Iechyd meddwl

Mae'r **bwysau costau byw cynyddol yn ychwanegu at ofnau o argyfwng iechyd meddwl** yn y DU.

Mae iechyd meddwl – i raddau helaeth – wedi'i **ffurfio gan yr amgylcheddau cymdeithasol, economaidd a ffisegol** y mae pobl yn byw ynddynt. Mae anghydraddoldebau mewn cymdeithas yn gysylltiedig â risg sylweddol uwch o salwch meddwl. **Mae tlodi yn chwarae rhan allweddol.**

Gall pobl sy'n byw mewn tlodi'n wynebu lefelau **cyson uchel o straen**, er enghraift gan ei bod hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, bod cartrefi'n orlawn neu annio gel, oherwydd ofn trosedd ac iechyd corfforol cymharol wael yn ogystal. Mae tlodi'n **amlwg yn gysylltiedig â nifer o broblemau iechyd meddwl**, gan gynnwys sgitsoffrenia, iselder a gorbryder, a chamddefnyddio sylweddau.

**Gall tlodi achosi salwch meddwl yn ogystal â bod yn ganlyniad ohono**, er enghraift lle mae symptomau gwanychol a stigma ynghylch salwch meddwl yn effeithio ar incwm person a'i allu i weithio. Mae'r prif bwyntiau yn cynnwys:

- Yng Nghymru, mae **20% o oedolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig** yn dweud eu bod yn cael eu trin am gyflwr iechyd meddwl, o gymharu ag 8% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- Mae plant o'r 20% tlotaf o gartrefi **bedair gwaith yn fwy tebygol** o gael anawsterau iechyd meddwl difrifol erbyn 11 oed na'r rheini o'r 20% cyfoethocaf.
- **Mae cyfraddau hunanladdiad ddwy neu dair gwaith yn uwch** yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig, o gymharu â'r rhai mwyaf cyfoethog.
- Po fwyaf yw'r **ddyled** sydd gan bobl, y mwyaf tebygol ydyn nhw o fod â phroblem iechyd meddwl. Mae un o bob pedwar o bobl sy'n dioddef problem

iechyd meddwl â phroblem dyled. Mae pobl â phroblemau iechyd meddwl deirgwaith yn fwy tebygol o fod mewn trafferthion ariannol.

Mae nifer o randdeiliaid sy'n cyfrannu at ymchwiliad presennol y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol, sef yr **ymchwiliad ar anghydraddoldebau iechyd meddwl** yn amlygu bod yr argyfwng costau byw eisoes yn debygol o effeithio ar iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru. Yn ôl lechyd **Cyhoeddus Cymru**:

*5. The impacts of increased energy prices, and the knock-on effects of this as well as inflation, is making it harder for people to keep their homes warm or purchase enough, healthy food for themselves and their families, among other impacts. These factors on their own would have negative impacts on mental health and well-being but will be further exacerbated by the stress and anxiety that comes with financial uncertainty.*

Yn ogystal â gwneud pobl yn fwy agored i broblemau iechyd meddwl, mae costau cynyddol hefyd yn **rhwystri bobl gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt** (er enghraiftt oherwydd costau cludiant).

## 8. Bwyd

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn **diffinio** ansicrwydd bwyd fel pan fod gan bobl ddiffyg mynediad diogel at ddigon o fwyd diogel a maethlon ar gyfer twf a datblygiad normal a bywyd egniol ac iach.

Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi arwain at **bryder eang am y system fwyd fyd-eang**. Mae Wcráin a Rwsia fel ei gilydd yn gynhyrchwyr ac yn allforwyr mawr o fwyd, er enghraifft gwenith a chnydau eraill. Mae Rwsia hefyd yn gynhyrchydd blaenllaw o faetholion allweddol a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd Ewrop. Mae'r prisiau ar gyfer y cynhyrchion hyn **wedi codi ar farchnadoedd ariannol** gan arwain at ofnau y bydd y rhyfel yn **effeithio ar y cyflenwad bwyd yn fyd-eang ac yn cynyddu costau bwyd ymhellach**.

Dyweddodd **y Gweinidog Materion Gwledig wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 17 Mawrth** nad oes unrhyw risg uniongyrchol i gyflenwadu bwyd a diogelwch bwyd yn y DU, ac mae hi'n cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig, manwerthwyr ac undebau ffermio.

Dyweddodd y Gweinidog fod cyflenwad olew blodyn yr haul yn un pryder posibl, ond mae gwerth misoedd lawer o gynnyrch yn cael ei storio. Nododd hefyd fod rhai ffermwyr yng Nghymru yn addasu eu cynlluniau plannu er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, pe baent yn codi.

Hyd yn oed cyn i Rwsia ymosod ar Wcráin, roedd pryderon cynyddol am ansicrwydd bwyd yng Nghymru. **Rhybuddiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2021** y byddai her diphlyg Brexit, y pandemig a newid yn yr hinsawdd o bosibl yn effeithio ar bob un ohonom trwy'r bwyd y gallwn ei brynu, ac at hynny:

*...vulnerable population groups will be particularly impacted negatively including those on low incomes, women, families with children, farmers, fishers and those who live in areas of deprivation.*

Mae'r Trussell Trust **wedi gweld** arwyddion bod angen yn cyflymu ar gyfer banciau bwyd tua diwedd 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu **bron i £3 miliwn** i gefnogi mynediad at fwyd a mynd i'r afael â thlodi bwyd.